

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 4, Hydref 2019





RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

61/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

TACHWEDD 28, 2019



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-83933-503-7

© Hawlfraint y Goron 2019

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 4, Hydref 2019

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight



Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediad

Croeso Cymru

Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

Canolfan QED, Ystad Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

E-bost: tourismresearch@gov.wales

ISBN: 978-1-83933-503-7

Tachwedd 28, 2019

© Hawlfraint y Goron 2019



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. Prif ganfyddiadau	3
2. Cefndir a methodoleg	4
3. Perfformiad yr hydref.....	6
4. Rhesymau dros gynnydd mewn ymwelwyr	9
5. Rhesymau dros lai o ymwelwyr	11
6. Proffidioldeb	13
7. Darpariaeth bwyd a diod Cymreig	15
8. Hyder ar gyfer 2020	20
9. Canfyddiadau ansoddol.....	22

1. Prif ganfyddiadau

Tymor cymysg i'r diwydiant

- 1.1 Mae dros chwarter (27%) y busnesau wedi cynyddu nifer eu hymwelwyr yr hydref hwn, ond mae'r un gyfran wedi gweld gostyngiad. Ymysg y rheiny a nododd gynnydd mewn ymwelwyr, roedd oddeutu chwarter (23%) yn nodi 'marchnata eu hunain' fel rheswm, ac roedd un o bob pump (20%) yn nodi 'busnes dychwel'.
- 1.2 Ymysg y rheiny a nododd ostyngiad, y ddau brif reswm am fod yn dawelach oedd y tywydd (27%) ac 'ansicrwydd ynghylch Brexit' (22%). Fodd bynnag, mae 14% o weithredwyr sydd wedi bod yn brysurach yn nodi 'mwy o Brydeinwyr yn aros yn y DU' fel rheswm, ac mae rhai ohonynt yn cysylltu hwn ag ansicrwydd ynghylch Brexit, sy'n rhwystro pobl ar eu gwyliau rhag mynd tramor.

Mae canlyniadau'n gyson yn ôl sector

- 1.3 Caiff y cyfnod cymysg a brofwyd gan y diwydiant yn gyffredinol ei adlewyrchu ar draws pob sector – nid yw'r gwahaniaethau rhyngddynt yn arwyddocaol.

Canolbarth a De-orllewin Cymru yn perfformio'n well, ond gostyngiad i Dde-ddwyrain Cymru

- 1.4 Mae Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi perfformio'n gadarnhaol at ei gilydd. Ar y llaw arall, mae De-ddwyrain Cymru wedi gweld oddeutu dau o bob pum busnes (39%) yn derbyn llai o ymwelwyr – nid yw nifer ohonynt (36%) yn gwybod y rheswm dros fod yn dawelach.

Darparu bwyd a diod Cymreig

- 1.5 Mae'r mwyafrif helaeth (87%) o fusnesau sy'n cynnig bwyd a diod i gwsmeriaid yn cynnwys bwyd a diod Cymreig o fewn eu darpariaeth. Ers mis Mehefin 2017, mae'r gyfran o'r busnesau yn Ne-ddwyrain Cymru sy'n darparu bwyd a diod Cymreig wedi cynyddu'n sylweddol o 73% i 87%.
- 1.6 Byddai tua hanner (51%) o'r busnesau yn hoffi cynnig mwy o fwyd a diod Cymreig. Y prif reswm dros beidio ag eisiau ei wneud yw pan fo'r gweithredwr yn teimlo'i fod eisoes yn defnyddio cymaint o gynnyrch Cymreig ag sy'n bosib.

Mae'r lefelau hyder yn nodweddiadol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn

- 1.7 Er gwaethaf cyfnod cymysg yn yr hydref a llawer o ansicrwydd yn y DU ar hyn o bryd, mae'r hyder ar gyfer 2020 yn rhesymol. Mae oddeutu tri o bob deg busnes (29%) yn 'hyderus iawn' ynglŷn â 2020, ac mae oddeutu hanner (49%) yn 'weddol hyderus'. Mae hyder yn y diwydiant twristiaeth yn dymhorol, ac mae'r canlyniad hwn yn nodweddiadol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn.

2. Cefndir a methodoleg

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Arolwg wedi'i gynnal ar ffurfiau amrywiol ers 2005, ac fel arfer cynhelir rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 2.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â thymor yr hydref 2019, ac yn cynnwys mesuriadau disgwyliadau ar gyfer 2020. Rydym wedi holi cwestiynau penodol hefyd am ddarpariaeth bwyd a diod Cymreig.

Sut y cynhelir yr Arolwg?

- 2.3 Rydym wedi cynnal 820 o gyfweiliadau dros y ffôn. Mae hwn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.4\%$. Mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru, ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:


Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	108	50	72	53	283
Llety hunanarlwyo	96	49	101	38	284
Meysydd carafanau/pebyll	40	13	21	6	80
Hostelau	8	6	8	5	27
Atyniadau	22	10	16	18	66
Gweithredwyr gweithgareddau	15	7	14	3	39
Bwytaï / tafarndai / caffis	8	12	8	13	41
Cyfanswm	297	147	240	136	820

- 2.4 Mae tua tri chwarter (73%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd, ac mae 27% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytaï / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Mae gweithredwyr bwytaï, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

2.5 Cynhaliwyd pob cyfweiliad ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ar ddechrau mis Tachwedd. Ceir copi o'r holiadur fel atodiad.

3. Perfformiad yr hydref

Perfformiad fesul sector



Tymor cymysg i'r diwydiant

- 3.1 Mae dros chwarter (27%) y busnesau wedi cynyddu nifer eu hymwelwyr yr hydref hwn, ond mae'r un gyfran wedi gweld gostyngiad.

"Dyma'n blwyddyn brysuraf hyd yn hyn"

Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain


"Rydym wedi bod yn dawel iawn yr hydref hwn ac felly wedi gorfod cyflogi llai o staff"

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Mae canlyniadau'n gyson yn ôl sector

- 3.2 Caiff y cyfnod cymysg a brofwyd gan y diwydiant yn gyffredinol ei adlewyrchu ar draws pob sector – nid yw'r gwahaniaethau rhyngddynt yn arwyddocaol. Mae hyn yn anghyffredin gan ein bod fel arfer yn gweld rhai sectorau'n perfformio'n well nag eraill. Rydym yn trafod y rhesymau cyffredinol dros gynnydd a gostyngiad mewn ymwelwyr yn adrannau 4 a 5.

Tuedd o ran perfformiad




Gostyngiad mewn canlyniadau ers yr haf

- 3.3 Roedd y diwydiant wedi bod yn perfformio'n dda yn yr haf, ond ers hynny mae rhai busnesau wedi sylwi ar ostyngiad mewn perfformiad o flwyddyn i flwyddyn. Mae sylwadau agored yn cefnogi hyn.

“Dyma'r tro cyntaf i ni beidio bod yn llawn yr adeg hon o'r flwyddyn”
Llety â gwasanaeth, y De-ddwyrain

“Ni fu unrhyw fusnes gennym yr hydref hwn”
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

Perfformiad fesul rhanbarth



Canolbarth a De-orllewin Cymru yn perfformio'n dda

3.4 Mae Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi perfformio'n gadarnhaol at ei gilydd. Ymysg y busnesau yng Nghanolbarth Cymru sy'n cynyddu eu hymwelwyr, mae tua thraean (33%) yn priodoli'r cynnydd mewn cwsmeriaid i'w marchnata eu hunain.


"Tynnwyd lluniau newydd y llynedd ac mae wedi gwneud byd o wahaniaeth"
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

Gostyngiad i Dde-ddwyrain Cymru

3.5 Ar y llaw arall, mae De-ddwyrain Cymru wedi gweld oddeutu dau o bob pum busnes (39%) yn derbyn llai o ymwelwyr. Nid yw nifer ohonynt (36%) yn gwybod y rheswm dros fod yn dawelach, er bod rhai yn bwrw amcan.

"Rydyn ni'n meddwl bod gan bobl lai o arian yn eu pocedi"
Bwyty, y De-ddwyrain

4. Rhesymau dros gynnydd mewn ymwelwyr



Marchnata eu hunain a busnes dychwel

- 4.1 'Marchnata eu hunain' a 'busnes dychwel' yw'r ddau brif reswm am fod yn brysurach, fel sy'n digwydd yn aml yn yr arolwg baromedr, oni bai fod y tywydd wedi bod yn braf. Mae adeiladu cwsmeriaid dychwel dros amser yn gallu helpu busnes i dyfu, a gall hefyd roi sefydlogrwydd i fusnes yn ystod amserau anodd pan nad yw'n denu cwsmeriaid newydd.

"Dim ond archebion gan fy nghwsmeriaid rheolaidd sydd gen i. Mae pobl y dyddiau hyn am gael mwy o'r pethau hynny o fath podiau a chabanau pren."

Llety hunanddarpar, y Canolbarth

"Mae'r busnes yn tyfu o un flwyddyn i'r llall, ac rydym yn derbyn llawer o fusnes dychwel"

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

"Mae busnes wedi cynyddu 20%, a dwi'n meddwl bod hyn yn rhannol oherwydd bod gwefan gennym nawr"

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

Mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU

- 4.2 Mae 14% o'r rheini sy'n cynyddu niferoedd eu hymwelwyr yn dweud bod hyn oherwydd mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU. Mae rhai yn amodi hyn trwy ddweud bod ansicrwydd ynghylch Brexit yn eu rhwystro rhag mynd dramor. Gallai'r DU fod yn well gwerth am arian na chyrchfannau tramor hefyd o ganlyniad i werth gwan y bunt.

"Oherwydd yr ansicrwydd, gall pobl gael seibiant o hyd a chyrraedd yma'n hawdd heb fynd ar awyren"

Llety hunanddarpar, y Gogledd


"Dydy pobl [Brydeinig] ddim yn mynd dramor ar hyn o bryd"

Parc carafanau, y Gogledd

"Mae grwpiau ysgol yn trefnu teithiau yn y wlad hon y flwyddyn nesaf yn lle mynd i leoedd fel Ffrainc oherwydd Brexit"

Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

5. Rhesymau dros lai o ymwelwyr



Tywydd gwael

5.1 Mae'r tywydd yng Nghymru'r hydref hwn wedi effeithio ar niferoedd yr ymwelwyr. Dyma'r achos yn enwedig o ran atyniadau a darparwyr gweithgareddau, lle bo oddeutu dau dreuan (65%) o'r rheini sy'n derbyn llai o ymwelwyr yn nodi'r tywydd fel rheswm. Mae gan rai gweithredwyr yn y sector hwn gyfleusterau yn yr awyr agored ac maen nhw felly yn arbennig o ddibynnol ar y tywydd.

"Mae gan y tywydd yr effaith fwyaf ar nifer yr ymwelwyr"
Atyniad, y Canolbarth

"Rydym bob amser yn hyderus dros ben, ond rydym wedi cael tywydd rhyfedd bob penwythnos yr hydref hwn"
Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

Ansicrwydd Brexit


5.2 Er bod rhai gweithredwyr yn dweud bod 'ansicrwydd Brexit' yn cadw pobl Brydeinig yn y DU, mae 22% o weithredwyr sy'n gweld llai o ymwelwyr yn ei weld fel ffactor ar berfformiad hefyd. Rhoddwyd dau reswm penodol: ansicrwydd sy'n arwain at gwsmeriaid Prydeinig yn gwario llai o arian, a gostyngiad yn niferoedd yr ymwelwyr o wledydd yn yr UE.

"Rydw i heb dderbyn unrhyw ymwelwr o'r UE eleni o gwbl"
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

"Dydy pobl ddim yn gwario arian ar hyn o bryd o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch
Brexit. Unwaith i bobl wybod beth sy'n digwydd, un ffordd neu'r llall, dwi'n gobeithio
bydd pethau'n gwella"
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

"Ansicrwydd Brexit – dim ymwelwyr Ewropeaidd eleni o gwbl"
Llety hunanddarpar, y Gogledd

6. Proffidioldeb




Proffidioldeb cyson

6.1 Yn ôl pob golwg, mae proffidioldeb yn y diwydiant y flwyddyn hon tua'r un peth â'r llynedd ar gyfartaledd. Tra bo rhai camau baromedr yn 2019 wedi dangos bod sectorau llety yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd, mae'r flwyddyn yn gorffen gyda darlun mwy cytbwys.

"Rydyn ni wedi cael 10% mwy o ymwelwyr yr hydref hwn, ac mae'n helw wedi cynyddu 20%"

Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Tueddiadau o ran proffidioldeb




Proffidioldeb cyffredinol cyson am ddwy flynedd

6.2 Caiff busnesau eu holi ynglŷn â'u proffidioldeb yn 'y flwyddyn hyd yn hyn' ym mhob cam, sy'n golygu bod canlyniadau'n cysoni dros gyfnod hirach wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Mae 2019 sefydlog yn gyffredinol yn dod ar gefn 2018 weddol sefydlog.

7. Darpariaeth bwyd a diod Cymreig

- 7.1 Yn y cam hwn, rydym wedi holi cwestiynau'n benodol ynglŷn â darpariaeth bwyd a diod Cymreig, ac agweddau gweithredwyr tuag ati. Gofynnwyd ychydig o'r cwestiynau ym maromedr Mehefin 2017 hefyd, ac rydym yn gwneud cymariaethau lle mae'n arwyddocaol.

Yn cynnig bwyd a diod Cymreig i gwsmeriaid




Gofynnwyd C9 ond i fusnesau sy'n cynnig bwyd a diod (oddeutu dau draean o'r holl sampl)

Yn debyg iawn i ganlyniad 2017, ar wahân i Dde-ddwyrain Cymru

- 7.2 Mae'r mwyafrif helaeth (87%) o fusnesau sy'n cynnig bwyd a diod i gwsmeriaid yn cynnwys bwyd a diod Cymreig o fewn eu darpariaeth. Dyma'r un gyfran ag ym mis Mehefin 2017.
- 7.3 Mae'r un newid sylweddol yn y canlyniadau i'w weld yn Ne-ddwyrain Cymru, lle mae'r gyfran sy'n darparu bwyd a diod Cymreig wedi cynyddu o 73% i 87%. Mae hyn yn golygu bod dim gwahaniaethau sylweddol erbyn hyn rhwng y pedwar rhanbarth yng Nghymru.

"Mae gennym arwyddion sy'n esbonio ein bod ond yn defnyddio cyflenwyr Cymreig ar gyfer ein bwyd a diod"
Atyniad, y De-ddwyrain

Y fath o fwyd a diod Cymreig a gynnigir



Gofynnwyd C10 i fusnesau sy'n cynnig bwyd a diod Cymreig


Cynnydd sylweddol mewn cynnyrch Cymreig wedi'i bobi

- 7.4 Ymysg y rheiny sy'n darparu bwyd a diod Cymreig, mae'r gyfran sy'n cynnig cynnyrch Cymreig wedi'i bobi wedi cynyddu'n sylweddol o 24% i 64% ers mis Mehefin 2017. Gwelir y cynnydd sylweddol hwn ym mhob sector a rhanbarth.
- 7.5 Fel arall, mae canlyniadau o ran math o gynnyrch yn parhau i fod yn debyg i 2017, gyda chynhyrchion llaeth a chig yn fwy tebygol o ddeillio o Gymru na diodydd, cyffeithiau a llysiau.

"Ar y label – rydym yn cynnig cig a chynhyrchion llaeth Cymreig yn ein llety gwely a brecwast"

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

Rhoi gwybod i gwsmeriaid am y cynnyrch Cymreig sydd ar gael



Gofynnwyd C12 i fusnesau sy'n hysbysu eu cwsmeriaid o'r bwyd a diod Cymreig sydd ar gael

Cynnydd mewn hysbysu cwsmeriaid drwy becynnau croeso


7.6 Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau (81%) sy'n cynnig bwyd a diod Cymreig yn hysbysu eu cwsmeriaid o'r ffaith hon – yn debyg iawn i 2017.

"Rydym yn rhedeg nosweithiau Cymreig"
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

7.7 Ymhlith y rhai hynny sy'n eu cynnig, mae bwydlenni'n parhau i fod y dull hysbysu mwyaf cyffredin. Fel arall, mae llai o ddibyniaeth ar argymhellion ar lafar gwlad o gymharu â 2017 (gostyngiad o 54% i 36%), ond mae yna gynnydd mewn hysbysu cwsmeriaid trwy becynnau croeso (cynnydd o 4% i 19%). Cynigir pecynnau croeso yn bennaf gan weithredwyr llety hunanddarpar, ac maent yn llawer mwy rhagweithiol o ran hysbysu cwsmeriaid am fwyd a diod Cymreig nag yn 2017. Mae dau draean (67%) o weithredwyr llety hunanddarpar sy'n hysbysu eu cwsmeriaid am fwyd a diod Cymreig yn gwneud hyn drwy becyn croeso, o gymharu â 26% yn unig ym mis Mehefin 2017.

"Ein pwynt gwerthu unigryw yw ein pecyn croeso mawr o fwyd a diod Cymreig, sy'n cael ei gynnwys yn y pris"
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

Yn cynnig mwy o gynnyrch Cymreig



Gofynnwyd C13 ond i fusnesau sy'n cynnig bwyd a diod Cymreig

Awydd mawr i gynnig mwy o gynnyrch Cymreig, yn dibynnu ar sector


- 7.8 P'un a yw busnesau'n cynnig bwyd a diod Cymreig ar hyn o bryd neu beidio, mae yna fwriad mawr i gynnig mwy ohonynt, yn enwedig yn y sector lle mai bwyd a diod yw sylfaen y busnes – bwyty / tafarnau / caffis. Ar ben arall y sbectrwm, nid oes cymaint o fwriad â hynny yn y sector llety hunanddarpar, ond mae cynnig bwyd a diod i gwsmeriaid yn rhan lai sylweddol o'r busnes.

"Rydym ond yn cynnig pecyn croeso bach"
Llety hunanddarpar, y De-ddwyrain

- 7.9 Mae annog mwy o fusnesau twristiaeth i gynnig bwyd a diod Cymreig yn fwriad allweddol i Lywodraeth Cymru / Croeso Cymru.

"Ni fyddwn yn ystyried rhoi unrhyw beth yn y pecyn croeso nad oedd yn Gymreig"
Llety hunanddarpar, y Gogledd

Rhesymau dros beidio â chynnig mwy o gynnyrch Cymreig



Gofynnwyd C14 ond i fusnesau a wnaeth ateb 'na' i C13


Eisoes yn ceisio defnyddio cynnyrch Cymreig

7.10 Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd am beidio â chynnig mwy bwyd a diod Cymreig yw bod y gweithredwr eisoes yn teimlo ei fod yn defnyddio cymaint ag sy'n bosib. Dyma'r prif reswm a roddwyd ym mhob sector a rhanbarth.

"Ar ôl adnewyddu, bydd y bwyty ar agor saith diwrnod yr wythnos a byddwn yn cynnig cynnyrch Cymreig – cymaint ag sy'n bosib"
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

8. Hyder ar gyfer 2020

Hyder fesul sector



Lefel resymol o hyder ar gyfer 2020

- 8.1 Er gwaethaf cyfnod cymysg yn yr hydref a llawer o ansicrwydd yn y DU ar hyn o bryd, mae'r hyder ar gyfer 2020 yn rhesymol. Mae oddeutu tri o bob deg busnes (29%) yn 'hyderus iawn' ynglŷn â 2020, ac mae oddeutu hanner (49%) yn 'weddol hyderus'.


"Rydym wedi derbyn adolygiadau da, sy'n esbonio pam rydym yn weddol hyderus am 2020"

Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

"Mae gen i 26 wythnos o archebion yn barod"

Llety hunanddarpar, y Gogledd

Tuedd mewn hyder



Mae'r lefelau hyder yn nodweddiadol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn

8.2 Mae canlyniadau hanesyddol yn dangos bod hyder yn y diwydiant yn dueddol i fod yn uwch yn gynharach yn y flwyddyn pan fo'r haf ar y gorwel. Mae'r lefelau hyder a fynegwyd yr hydref hwn yn debyg i'r adeg hon y llynedd a'r flwyddyn cyn hynny. Mae rhai yn dweud bod hwn yn ddiwydiant lle bo hyder yn hanfodol.

"Rydw i wedi treulio 60 mlynedd yn y diwydiant hwn, felly dylwn fod yn hyderus"
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

9. Canfyddiadau ansoddol

- 9.1 Rydym wedi cynnal chwe chyfweliad manwl dros y ffôn â ffigurau twristiaeth allweddol o sefydliadau a chyrff amrywiol ledled Cymru. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Perfformiad yr hydref hwn o'i gymharu â'r llynedd

- 9.2 Yn gyson â'r canfyddiadau meintiol, mae'r hydref hwn, o'i gymharu â'r llynedd, wedi amrywio. O ganlyniad i ansicrwydd yr economi, mae rhai rhanddeiliaid yn nodi cyfnod gweddol lwyddiannus gyda thwf cymedrol, tra bo eraill wedi profi diffyg cynnydd neu ostyngiad yn niferoedd yr ymwelwyr a phroffidioldeb.

"Yn ôl ein hatyniadau mwy, dyma'r flwyddyn orau ers tipyn o amser, ond ar y cyfan rwy'n cael darlun cymysg iawn"

"Mae'n anodd iawn dweud gan ei fod mor benodol i bob busnes. Y tywydd yw'r ffactor pwysicaf ond mae hynny'r un peth bob blwyddyn. Mae popeth arall mor ansicr."

- 9.3 Mae'r sector carafanau a gwerysyla wedi perfformio'n dda yn ôl pob golwg, yn fwyaf nodedig y busnesau sy'n cynnig glampio. Mae Prydeinwyr sydd ar eu gwyliau yn aros yn y DU yn ôl pob golwg, a'r bunt wan yw un o'r rhesymau a roddir.

"Mae yna lawer o bobl sy'n osgoi mynd dramor ond dwi ddim yn siŵr os Brexit yw'r unig reswm dros hynny. Dwi'n siŵr fod yna faterion arall. Yn Ffrainc, maent wedi mynd yn llym â gyrwyr drwy gynyddu dirwyon goryrru felly dyna sy'n rhwystro twristiaid, dwi'n amau."

"Mae effaith gwerth y bunt wedi bod fwyaf nodedig"

- 9.4 Mae'r ffordd y mae pobl yn treulio'u gwyliau yn ymddangos fel ei bod yn newid hefyd. Mae dwy gymdeithas yn nodi cynnydd mewn pobl ifancach yn mynd ar wyliau byrrach. Priodolir hyn i dwf Airbnb. Mae'r hyblygrwydd o ran sut gallwch drefnu gwyliau ar Airbnb wedi annog gwyliau byr.

"Dwi'n meddwl bod mwyfwy o bobl ifanc yn mynd ar wyliau byr, a mwy o fusnesau'n disgwyl gwyliau byr. Mae Airbnb yn ffactor. Mae'n hysbysebu llawer ac yn apelio at y math hwnnw o farchnad."

- 9.5 Mae busnesau yn y sectorau llety â gwasanaeth a hunanddarpar ac atyniadau sy'n gwerthu anrhegion a chofroddion Cymreig yn cael eu heffeithio gan ansicrwydd yr economi. Mae gwariant cwsmeriaid yn cael ei yrru gan ffydd yn yr economi ac incwm gwario sydd ar gael.

"Mae'r cwsmer wedi bod yn sensitif iawn ynghylch prisiau"

"Mae'r sefydliad yn gyffredinol wedi gweld gostyngiad enfawr mewn gwario arian, yn enwedig yn y sectorau arlwygo a manwerthu"

Y camau nesaf

- 9.6 Yn yr hinsawdd economaidd a gwleidyddol bresennol, mae yna gonsensws rhwng rhanddeiliaid ei bod yn rhy anodd rhagfynegi'r dyfodol.

"Rydym mor ddibynnol ar y farchnad ddomestig; mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ba mor gyfoethog mae'r cwsmeriaid yn teimlo"

"Mae'r ansicrwydd ynghylch Brexit yn effeithio ar niferoedd yr ymwelwyr. Mae p'un a yw hyn yn golygu bod niferoedd yn cynyddu neu'n gostwng yn dibynnu'n syml ar eich busnes."

- 9.7 Tra bo safbwyntiau ynglŷn â Brexit yn amrywio, mae rhanddeiliaid yn cytuno'n bennaf y bydd deilliant penodol yn cael effaith gadarnhaol ar y fasnach, waeth beth yr hyn a benderfynir. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth o'r hyn fydd yn digwydd yn rheswm sylweddol dros ddiffyg twf neu ostyngiad mewn lefelau perfformiad.

"Mae ymwelwyr yn bendant wedi bod yn gwario llai. Rydyn yn cymryd ei fod o ganlyniad i ansicrwydd Brexit."

"Hyd nes ein bod yn gwybod lle rydym yn sefyll yn wleidyddol, mae pobl yn mynd i osgoi gwario arian llawer yn fwy"

- 9.8 Er gwaethaf yr ansicrwydd hwn, mae rhai yn nodi bod niferoedd da o archebion ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â busnes dychwel.

"Mae cryn dipyn o ymwelwyr wedi bod yn archebu o flaen llaw"

"Mae gennym archebion da [ar gyfer y flwyddyn nesaf] ar hyn o bryd. Fel arfer, does dim cymaint o archebion ar gyfer y flwyddyn nesaf ag sydd gennym erbyn hyn. Mae gennym y cwsmeriaid rheolaidd sydd bob amser yn cadw lle ond cwsmeriaid newydd hefyd y flwyddyn hon."

Darpariaeth bwyd a diod Cymreig

- 9.9 Ymysg y rhanddeiliaid, mae yna ddiddordeb cadarn mewn darparu mwy o fwyd a diod Cymreig. Yn gyffredinol, maen nhw'n teimlo bod yna alw am fwyd a diod Cymreig gan gwsmeriaid, ac awydd gan weithredwyr i'w darparu. Mae yna alw cynyddol am gynhyrchion cynaliadwy ond sydd hefyd o ansawdd uchel.

"Mae'n rhaid ei wneud. Dyma'r fath beth mae pobl ei eisiau. Maent eisiau rhywbeth a gafodd ei gynhyrchu'n lleol sy'n dweud rhywbeth am yr ardal."

"Yn ogystal â chynnig gwybodaeth i dwristiaid, rydym nawr yn canolbwyntio ar ochr manwerthu pethau. Rydym yn gwerthu cynnyrch lleol."

"Mae ymwelwyr yn disgwyl cynnyrch Cymreig. Maent yn gofyn amdano. Pe gallai unrhyw ddewis ar y fwydlen fod yn Gymreig, byddem bob amser yn defnyddio'r cynnyrch Cymreig."

"Mae ein cynnyrch i gyd yn Gymreig; ni fyddem yn gwerthu unrhyw beth nad oedd yn Gymreig. Dwi ddim yn gwybod a yw pobl ar eu gwyliau yn chwilio amdano'n benodol ond mae pobl yn ei weld ac yn ei ystyried yn gofrodd hyfryd – yn enwedig yr alcohol."

- 9.10 I rai gweithredwyr, mae'r gallu i ddarparu bwyd a diod Cymreig yn dibynnu ar incwm gwario'r ymwelwyr ac argaeledd y cynnyrch.

"Yr anhawster yw'r gallu i ddod o hyd i'r cynnyrch drwy gydol y flwyddyn. Ystyrir bod llawer o gynnyrch Cymreig yn ddrud ac yn anodd cael gafael arno pan allwch fynd i lawr i Aldi a llenwi eich troli heb wneud mwy. Os ydych yn gwerthu cynnyrch Cymreig, mae'n rhaid ei uchelbrisio. Bydd yna ychydig o fusnesau a all wneud hynny ond, eto, byddai hyn yn cael ei bennu i'r rhan fwyaf gan ba mor gyfoethog mae eu cwsmeriaid yn teimlo."

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Mehefin 2019

Sector Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ☐
- Llety hunan arlwygo ☐
- Maes carafannau / pebyll ☐
- Hostel..... ☐
- Atyniad ☐
- Cynnal gweithgaredd..... ☐
- Bwyty / tafarn / cafffi ☐

Q1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?

- Do ☐ Go to Q2
- Naddo ☐ Go to Q6

Q2 O gymharu â hydref y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael yr hydref eleni?

- Mwy na'r llynedd ☐
- Tua'r un peth ag y llynedd..... ☐
- Llai na'r llynedd ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Q3 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? (*Paid a annog, ticiwch bob un perthnasol*)

- Tywydd gwell ☐
- Marchnata eich hun..... ☐
- Busnes dychwel ☐
- Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com) ☐
- Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwygo)..... ☐
- Argymhellion..... ☐
- Cynnydd mewn twristiaeth ☐
- Mwy o le / ystafelloedd ☐
- Digwyddiadau yn yr ardal..... ☐
- Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell..... ☐
- Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU ☐
- Mwy o ymwelwyr tramor ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Arall ☐

Nodwch reswm / resymau eraill

Q4 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? (*Paid a annog, ticiwch bob un sy'n berthnasol*)

- Tywydd..... ☐
- Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr ☐
- Problemau annisgwyl ☐
- Ansicrwydd Brexit..... ☐
- Cystadleuaeth pris isel..... ☐
- Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal ☐
- Llai o ymwelwyr tramor ☐
- Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU ☐
- Ddim yn gwybod ☐
- Arall ☐
- Nodwch reswm / resymau eraill _____

Q5 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidioldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

- I fyny ar y llynedd ☐
- Tua'r un peth a llynedd ☐
- I lawr ar y llynedd ☐
- Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud ☐

Q6 Pa mor hyderus ydych chi am 2020?

- Hyderus iawn ☐
- Eithaf hyderus..... ☐
- Ddim yn hyderus iawn ☐
- Ddim yn hyderus o gwbl..... ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Q7 Interviewer: record all useful comments on performance this summer, particular markets or confidence for the autumn

Q8 A ydych ar hyn o bryd yn cynnig unrhyw fwyd a diod i gwsmeriaid?

- Ydw..... ☐
- Nac ydw ☐

Q9 A ydych ar hyn o bryd yn cynnig bwyd a diod Cymreig i gwsmeriaid? (Bwyd a diod a wnaed neu a gynhyrchir yng Nghymru)

- Ydw..... ☐
- Nac ydw ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Q10 OS YDW: Pa fathau o fwyd a diod Cymreig ydych chi'n eu cynnig i'ch cwsmeriaid? (TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL)

- Dŵr ☐
- Llaeth ☐
- Wyau..... ☐
- Cynhyrchion llaeth eraill - Caws/logwrt/Hufen ia/Menyn ☐
- Cig - Cig Oen/Eidion/Cyw lâr /Porc/Helgig ☐
- Te/Coffi ☐
- Diodydd meddal ☐
- Alcohol ☐
- Llysiau..... ☐
- Bwyd y Môr..... ☐
- Bwyd wedi ei bobi ☐
- Cyffeithiau ☐
- Arall ☐

Nodwch unrhyw atebion eraill

Q11 Ydych chi'n rhoi gwybod i gwsmeriaid am y bwyd a diod Cymreig rydych yn ei ddarparu neu yn eich bwydlenni?

- Ydw..... ☐
- Nac Ydw..... ☐
- Ddim yn gwybod ☐

Q12 OS YDW: Sut ydych chi'n rhoi gwybod i gwsmeriaid am y bwyd a diod Cymreig rydych chi'n eu cynnig? (TICIWCH BOB UN SY'N PERTHNASOL)

- Bwydlen ☐
- Bwrdd cyflenwyr ☐
- Ar lafar ☐
- Deunyddiau hyrwyddo ☐
- Bwrdd prydau arbennig..... ☐
- Pecyn croeso ☐
- Arall ☐

Nodwch unrhyw atebion eraill

Q13 Hoffech chi gynnig mwy o fwydydd Cymreig?

- Hoffwn..... ☐
- Na..... ☐

Q14 Os na, pam?

- Rydym eisoes yn cyfenwi gymaint o i fwyd a diod o Gymru ag y gallwn ☐
- Nid oes ots i mi o ble mae'r bwyd a'r diod yn dod..... ☐
- Nid wyf yn credu ei fod o bwys i'n cwsmeriaid o ble mae'r bwyd a'r diod yn dod..... ☐
- Byddai'n ychwanegu at ein costau ☐
- Nid yw ansawdd rhai cynhyrchion cystal ☐
- Nid yw brandiau Cymru mor adnabyddus..... ☐
- Nid ein penderfyniad (e.e. prif swyddfa) ☐
- Contract gyda'r cyflenwr sy'n penderfynu o ble mae'r bwyd yn dod ☐
- Ddim yn gwybod - byth wedi meddwl am y peth mewn gwirionedd..... ☐
- Arall ☐

Nodwch reswm / resymau eraill

Q15 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?

- Do..... ☐
- Naddo ☐